



Tîm Dyslecsia

- **Gwybodaeth am y Tîm**
- **Beth sydd angen i fyfyrwr ei wneud**
- **Lwfansau Myfyrwr Anabl (LMA / DSA)**
- **Cynllun Cefnogi Dysgu Personol**
- **Rhwystrau i astudio**

Ffôn: 01248 383620 / 01248382032

E-bost:
gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Mae'r daflen hon ar gael mewn gwahanol fformat



Gwybodaeth am y Tîm

Mae'r Gwasanaeth Dyslecsia yn rhoi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r materion isod:

- Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol.
- Lwfansau Myfyrwr Anabl (LMA / DSA).
- Cymorth wrth astudio.

Gall myfyrwr ddod am gyngor (yn Gymraeg neu Saesneg) ar ddatblygu eu sgiliau dysgu a mynd i'r afael â gofynion astudio, naill ai'n rheolaidd neu pan fyddont yn teimlo'r angen am hynny.

Mae myfyrwr yn gweithio gyda staff arbenigol i ddatblygu sgiliau a strategaethau ar gyfer:

- Trefnu / rheoli amser
- Dod i ben â'r darllen.
- Cynllunio traethodau / ysgrifennu academaidd.
- Adolygu / dysgu ar y cof / arholiadau.
- Mathemateg / Ystadegau.

Beth sydd angen i fyfyrwr ei wneud

Cofrestru gyda ni i drefnu addasiadau a chefnogaeth. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi drwy gylchlythyrau a negeseuon e-bost.

Byddwn angen copi o adroddiad ar eich asesiad gwahaniaeth dysgu penodol (SpLD) wedi ei ysgrifennu gan seicolegydd addysgol neu athro arbenigol sydd â thystysgrif ymarfer. Dylai hwn fod wedi'i ysgrifennu pan oeddech yn 16 neu hŷn (ar ôl TGAU) os ydych eisiau gwneud cais am LMA.

Os ysgrifennwyd eich adroddiad pan oeddech o dan 16 oed, gallwn drefnu asesiad newydd. Mae'n bosib y gall myfyrwr sydd wedi eu cofrestru ym Mhrifysgol Bangor wneud cais am gyllid at hyn o'r Gronfa Caledi Myfyrwr.

DS. Yn achos myfyrwr nad ydynt wedi cael eu hasesu o'r blaen, mae'r Tîm Dyslecsia'n darparu asesiadau sgrinio am ddim.

Lwfansau Myfyrwr Anabl (LMA / DSA)

Lle bo hynny'n berthnasol, gall myfyrwr wneud cais i'w darparwr cyllid am Lwfans Myfyrwr Anabl, a all dalu am fwy o gefnogaeth i'w helpu i drefnu a chyflawni eu gofynion astudio, ac i hwyluso'r ffordd iddynt fanteisio i'r eithaf ar fywyd academaidd a chymdeithasol y brifysgol.

Cynllun Cefnogi Dysgu Personol

Caiff y rhain eu llunio i fyfyrwr unigol ac maent yn nodi'r addasiadau priodol sydd eu hangen i leihau'r rhwystrau i astudio.

Rhwystrau i Astudio

Fel rhan o'r Gwasanaeth Anabledd rydym yn ceisio lleihau'r rhwystrau i astudio. Ein nod yw helpu myfyrwr gyda gwahaniaethau dysgu penodol i gyflawni eu hamcanion dysgu trwy drefnu addasiadau priodol o ran darlithoedd, asesiadau ac arholiadau neu fynediad at wasanaethau llyfrgell, er enghraifft.

